# Mynediad i Ystâd y Senedd

21 Ionawr 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Hoffwn wneud cais Rhyddid Gwybodaeth. A fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ganlynol i mi:*

1. *Pa grwpiau gwleidyddol sydd wedi gofyn i'w staff cymorth weithio ar Ystâd y Senedd (gan gynnwys y Senedd, Tŷ Hywel ac adeilad y Pierhead) ers dechrau'r cyfyngiadau symud Covid cychwynnol o 23 Mawrth 2020 ymlaen? Nodwch ddyddiad y ceisiadau hyn ac a gafodd y ceisiadau eu cymeradwyo ai peidio.*
2. *Pa Aelodau o'r Senedd sydd wedi gofyn i'w staff cymorth weithio o Ystâd y Senedd (gan gynnwys y Senedd, Tŷ Hywel ac adeilad y Pierhead) ers dechrau'r cyfyngiadau symud Covid cychwynnol o 23 Mawrth 2020 ymlaen? Nodwch ddyddiad y ceisiadau hyn ac a gafodd y ceisiadau eu cymeradwyo ai peidio.*

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani wedi'i nodi yn y tablau isod.

Er gwybodaeth - mae'r tablau'n seiliedig ar geisiadau rydym wedi'u cael i fod yn bresennol ac nid ar bresenoldeb mewn gwirionedd. Mae'n seiliedig ar y system sydd wedi bod ar waith ers haf 2020 lle cyflwynir ceisiadau i fynd i'r safle ar gyfer yr wythnos ganlynol.

1. Mae'r tabl a ganlyn yn rhestr o grwpiau gwleidyddol sydd wedi gwneud ceisiadau i staff cymorth weithio o ystâd y Senedd ers 16 Awst 2020. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth a gasglwyd rhwng 23 Mawrth 2020 a 15 Awst 2020.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| Grŵp Gwleidyddol |
| --- |
| Plaid Cymru |
| Y Ceidwadwyr Cymreig |
| Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio |
| Plaid Brexit |
| Llafur Cymru |

Gofynnodd eich cais am ddyddiadau'r ceisiadau hyn, ond ni allwn roi'r lefel hon o fanylder i chi oherwydd byddai gwneud hynny'n golygu y byddai modd adnabod rhai unigolion. Byddai hynny, felly, yn ddata personol. Felly, mae'n ddarostyngedig i'r eithriad 'gwybodaeth bersonol' o dan Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un neu rai o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr **atodiad** i'r llythyr hwn.

2. Mae'r tabl a ganlyn yn rhestr o Aelodau o'r Senedd sydd wedi gwneud cais i'w staff cymorth weithio o Ystâd y Senedd (gan gynnwys y Senedd, Tŷ Hywel ac adeilad y Pierhead) ers 16 Awst 2020. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth a gasglwyd rhwng 23 Mawrth 2020 a 15 Awst 2020.

   Gweler cwestiwn 1 am y rheswm pam na allwn roi dyddiadau penodol y ceisiadau hyn i chi.

| Aelodau o'r Senedd | | |
| --- | --- | --- |
| Rebecca Evans | Darren Millar | Neil McEvoy |
| Vaughan Gething | Jack Sargeant | Delyth Jewell |
| Jenny Rathbone | Mark Reckless | Neil Hamilton |
| Mandy Jones | Russell George | David Rowlands |
| Nick Ramsay | Paul Davies | Rhianon Passmore |
| Lynne Neagle | Laura Ann Jones | Joyce Watson |
| Andrew RT Davies | Janet Finch-Saunders | Suzy Davies |
| Alun Davies | Hefin David | Gareth Bennett |
| Helen Mary Jones | | |

Rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i’ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu’n ysgrifenedig i

Senedd
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

**Adran 40 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu data personol yn torri'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**

Mae'r diffiniad o ddata personol wedi'i nodi yn Erthygl 4 o GDPR y DU, sef:

> "any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, sy'n ymwneud â'r dyddiadau penodol pan mae staff cymorth yr Aelodau wedi mynd i ystâd y Senedd i weithio, yn golygu y gellid adnabod rhai staff grwpiau gwleidyddol a staff cymorth.

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU yn nodi:

> "Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth asesu a fyddai datgelu yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau gwneud hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau ac unrhyw ddiddordeb dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Cyflogir staff cymorth a staff grwpiau yn uniongyrchol gan Aelodau o'r Senedd i'w cefnogi a/neu i gefnogi eu grŵp gwleidyddol yn eu gwaith etholaeth a gwaith y Senedd. Nid ydynt yn destun yr un lefel o graffu cyhoeddus â chynrychiolwyr etholedig ac ni fyddai ganddynt ddisgwyliad rhesymol y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei datgelu. Roedd gan Gomisiwn y Senedd y wybodaeth hon er mwyn rheoli niferoedd ar ystâd y Senedd yn ystod y pandemig presennol, yn hytrach gwneud staff cymorth a staff grwpiau gwleidyddol yn destun craffu o ran sut y maent yn cyflawni eu swydd.

Drwy ryddhau'r dyddiadau yn unol â'r cais, ynghyd â gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am nifer y staff cymorth a gyflogir gan Aelod penodol ac, mewn rhai achosion, eu rhifau ffôn (sy'n gallu nodi eu lleoliad gwaith), byddai modd adnabod rhai unigolion.

Er gwaethaf fy marn ynghylch sicrhau tegwch, euthum ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Senedd o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at y wybodaeth hon; yr unigolion dan sylw a'u hawl hwy i breifatrwydd; a budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth hon.

Mae gwybodaeth am weithredoedd cynrychiolwyr etholedig, yn enwedig yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd, o fudd cyffredinol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw staff cymorth a staff grwpiau yn destun yr un lefel o graffu cyhoeddus ac, wrth fynd i'r ystâd, maent yn gwneud hynny ar gais eu cyflogwr yn unig. O'r herwydd, nid yw'r budd cyffredinol i'r cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid y staff cymorth a staff grwpiau gwleidyddol hynny.

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a nodir yn y tablau yn ffordd gytbwys o fodloni budd y cyhoedd drwy ddatgelu'r cynrychiolwyr etholedig a grwpiau gwleidyddol sydd wedi gofyn i'w staff fynd i ystâd y Senedd, ac ar yr un pryd sicrhau nad yw buddiannau, hawliau sylfaenol neu ryddid staff cymorth a staff grwpiau gwleidyddol yn cael eu tanseilio.